wales arts international
celfyddydau rhyngwladol cymru

# Nodiadau Cymorth Ffurflen Gyllideb CCRh

Hydref 2019

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, ar dâp sain ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

# Cynnwys


Adran 1: Gwybodaeth bwysig ........................................................................4
Adran 2: Incwm y prosiect...............................................................................4
Arian partneriaeth:........................................................................................4
Adran 3: Manylion o wariant y prosiect...........................................................4
Teithio'n ôl o Brydain:....................................................................................4
Trosglwyddo costau (Prydain):.......................................................................5
Costau trosglwyddo a theithio mewnol (y tu allan i Brydain):......................................5
Per diem (cyfraddau cynhaliaeth ddyddiol): ..................................................5
Ffioedd Artistiaid Proffesiynol: .....................................................................5

Ar ôl ichi lenwi eich cyllideb, rhaid ei mantoli fel bo cyfanswm yr incwm yr un peth â chyfanswm y gwariant. Nid yw ceisiadau sy'n gofyn am 100% o'r costau yn gymwys ar gyfer Cronfa'r Cyfleoedd Rhyngwladol.

## Adran 1: Gwybodaeth bwysig

Rhowch enw eich sefydliad yma, neu eich enw chi (os ymgeisiwch yn unigolyn).

## Adran 2: Incwm y prosiect

Llenwir y rhan fwyaf o'r adran hon yn awtomatig, ond ystyriwch y canlynol:

**Arian partneriaeth:**

Disgwyliwn weld lefel briodol o arian partneriaeth oddi wrth ffynhonnell ryngwladol yn y gyllideb. Dengys hyn fod eich partneriaid rhyngwladol yn ymroddedig i nodau ac amcanion eich prosiect ac yn barod i fuddsoddi ynddo. Golyga hefyd y gallant rannu ychydig o'r perygl ariannol.

Cydnabyddwn fod rhai rhannau o'r byd lle mae'r economi leol yn golygu ei bod yn anos codi arian partneriaeth a chymerwn hyn i ystyriaeth yn ystod y broses asesu. Yn y fath achosion, disgwyliem weld cefnogaeth mewn nwyddau oddi wrth y partneriaid.

Ar gyfer rhai ymweliadau ymchwil a datblygiad, un o'r amcanion allai fod i nodi posibiliadau ariannu rhyngwladol pan nad oes gennych yr arian partneriaeth eto. Serch hynny, disgwyliem weld ymrwymiad i'ch ymweliad ar ffurf cefnogaeth ryngwladol mewn nwyddau neu gyfraniad oddi wrth ffynonellau eraill yng Nghymru neu gyda'ch arian eich hun.

Mae'n bosibl na fydd arian rhyngwladol yn briodol, er enghraifft, o ran cymryd rhan mewn rhai digwyddiadau megis ffeiriau masnach neu eu mynychu. Disgwyliem weld naill ai cefnogaeth bartneriaeth oddi wrth ffynonellau eraill yng Nghymru neu eich cyfraniad eich hun.

Bydd arnoch angen darparu tystiolaeth ysgrifenedig o'r cyfraniadau hyn mewn nwyddau neu arian.

## Adran 3: Manylion o wariant y prosiect

Dyma'r lle i roi dadansoddiad o'r holl gostau. Manylwch ar sut y cyrhaeddasoch bob cost a defnyddiwch y gwymplen i nodi sut yr ariennir y gost.

**Teithio'n ôl o Brydain:**

Dewiswch eich prif fath ar gludiant.

Os penderfynasoch deithio â math penodol ar gludiant oherwydd rhesymau amgylcheddol neu hygyrchedd, nodwch eich rhesymeg yn adran weithgarwch y ffurflen.

Trosglwyddo costau (Prydain):

Dyma'r costau teithio'n ôl a gewch rhwng man cychwyn eich taith yng Nghymru (e.e. eich cartref) a'r lle y byddwch yn ymadael â Phrydain yn derfynol (e.e. maes awyr neu orsaf drên).

Costau trosglwyddo a theithio mewnol (y tu allan i Brydain):

Dyma'r costau a gewch rhwng y lle a gyrhaeddwch y tu allan i Brydain a'r lle cyntaf y byddwch yn aros ynddo (e.e. maes awyr neu westy) ac unrhyw gostau teithio a gynllunnir a gewch y tu allan i Brydain a gysylltir yn uniongyrchol â'r prosiect (e.e. taith drên o un ddinas i un arall). *Dylid cynnwys unrhyw gostau teithio dyddiol (e.e. bws o'r gwesty i'r stiwdio) yn y gost per diem.*

Per diem (cyfraddau cynhaliaeth ddyddiol):

Per diem yw'r lwfans dyddiol ar gyfer prydau bwyd a threuliau teithio.

Ffioedd Artistiaid Proffesiynol:

Cyfeiriwch at y cyngor yng nghanllawiau'r Cronfa Cyfleoedd Rhyngwladol.